Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd y **Cyfarfod Blynyddol** ar yr 8fed o Fai 2023 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Alma.

Cynghorwyr yn bresennol: John Phillips(Cadeirydd), Derrick Harries, Andrew Jones, Alyson Harries, Linda Davies, Dyfed Davies, Ambrose Lewis & Cynghorydd Sir Jean Lewis.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

Sylwadau'r Cadeirydd:
Agorodd John Phillips drwy croesawu pawb i'r Cyfarfod Blynyddol a diolchodd i'r Cynghorwyr ac y Clerc am fynychu ac am eu gwaith dros y flwyddyn olaf. Dymunodd pob llwyddiant i'r Cadeirydd newydd.

1. **Apwyntio Cadeirydd:** Cynigwyd yn unfrydol for Mr Derrick Harries yn ymgymryd a'r swydd am y flwyddyn i ddod. Cymherodd Derrck Harries y gadair â chymrodd y cyfle i ddiolch John Phillips am ei waith arbennig dros y flwyddyn olaf.
2. **Apwyntio Is-Gadeirydd:** Cynigwyd yn unfrydol Mr Andrew Jones fod yn Is-Gadeirydd ac fe'i dderbyniodd.
3. **Ymddiheuriadau absennoldeb.**
   Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Ann Sillars, Eirian Howells ac Arwyn Jones
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
   Roedd cofnodion y cyfarfod blynyddol o'r 9fed o Fai 2022wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'i cytunwyd a'i llofnodwyd fel cofnod cywir.

5. Llofnodwyr Cyfrif Banc – Cadarnhaodd y clerc mae y llofnodwyr presennol oedd Mr Ambrose Lewis, Mrs Alyson Harries, Mr Andrew Jones ac y clerc. Roedd angen dau berson i lofnodi. Cytunwyd i gadw yr un llofnodwyr. Awdurdodwyd y clerc i wneud trosglwyddiadau uniongyrchol ar y system bancio ar-lein am daliadau a oedd wedi cael eu hawdurdodi yn y cyfarfodydd.

6. Prisio asedau – Roedd cadwyn y cadeirydd eisioes wedi ei brisio yn £2944. Cytunwyd i gadw yr un gwerth.

7. Derbyn y cyfrifon – Trafodwyd y cyfrifon roedd wedi cael eu archwilio ac fe'u cafwyd yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd ac y Clerc. Cytunwyd i lofnodi'r Ffuflen Archwilio Blynyddol ar sail y cyfrifon a dderbyniwyd.

8. Derbyn Cyllideb 2023-2024 – Trafodwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ac fe'i cytunwyd.

9. Cyflog y Clerc – Trafodwyd cyflog y clerc a cytunwyd i'w godi i £6300.00 y flwyddyn, Byddai'r taliadau yn parhau yn fisol.

10. Asesiad Risg 2023-2024 – Adolygiwyd yr asesiad ac fe'i dderbyniwyd.

11. Rheolau Cyllid y Cyngor – Cytunwyd i dderbyn y Rheolau ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

12. Cofnod diddordeb y Cynghorwyr – Roddodd y clerc wybod i'r Cynghorwyr byddai angen iddynt gwblhau cofnod newydd os oedd unrhyw newidiadau ers y flwyddyn flaenorol a'u dychwelyd i'r clerc. Roedd ffurflenu ar gael wrth y Clerc.

13.Unrhyw Fusnes Arall

- Dosbarthodd y clerc y Ffurflen Optio Allan am y Lwfans Cynghorwyr o £150 am y flwyddyn 2023-2024 os and oeddent am ei dderbyn.

- Roedd y Cynghorwyr eisioes wedi derbyn copi o'r Adroddiad Blynyddol arfaethedig. Cytunwyd i dderbyn a chyhoeddi'r adroddiad.
- Roedd y clerc wedi adolygu y cynllun hyfforddiant ac byddai'n cadw i'w asesu dros y flwyddyn.
- Dosbarthodd y clerc y cynllun Bioamrywiaeth arfaethedig. Cytunwyd i'w fabwysiadu.

Cymherodd y Cynghorydd Sir Jean Lewis y cyfle i ddiolch y Cynghorwyr ac y Clerc am eu cefnogaeth dros y flwyddyn olaf a diolchodd y Cyn-Gadeirydd am ei waith caled a dymunodd pob llwyddiant i'r Cadeirydd newydd.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd Derrick Harries i bawb am fynychu ac fe derfynwyd y cyfarfod am 8.40yh.